## Cynigion a Gwelliannau i’w Trafod yn y Dyfodol

## Cynnig Heb Ddyddiad Trafod a gyflwynwyd ar 17 Hydref 2006

### NNDM3280 Tamsin Dunwoody (Preseli Sir Benfro)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 31.2, yn cefnogi, mewn egwyddor, ddeddfwriaeth a fydd:

Darparu ar gyfer arolygu Practisys Deintyddol Preifat yng Nghymru a chyflwyno systemau ar gyfer adrodd ar unrhyw ganfyddiadau.

*Isod ceir datganiad o bwerau cyfreithiol a fyddai’n caniatáu i’r ddeddfwriaeth arfaethedig gael ei gwneud, ynghyd ag amlinelliad o’r goblygiadau o ran adnoddau a deunyddiau eraill, a hynny er mwyn helaethu ar y cynnig:*

**Datganiad o Bwerau Cyfreithiol:**

Mae gan y Cynulliad y pwer i wneud rheoliadau dan adran 42 Deddf Safonau Gofal 2000 sy’n gallu darparu ar gyfer cymhwyso Rhan 2 y Ddeddf Safonau Gofal i bersonau penodedig. Mae Rhan 2 yn ymwneud â chofrestru ac arolygu rhai sefydliadau ac asiantaethau penodol gan y Cynulliad. Mae Adran 42 yn caniatáu i’r drefn gael eu hehangu i bersonau sy’n darparu gwasanaethau sy’n debyg i wasanaethau y gellir, neu y mae’n rhaid, eu darparu gan Awdurdodau Iechyd, Awdurdodau Iechyd Arbennig, Ymddiriedolaethau GIG neu Ymddiriedolaethau Gofal Sylfaenol.

**Goblygiadau o ran Adnoddau:**

Gan y byddai arolygon yn cael eu cynnwys o fewn rhaglen gyffredinol Arolygiaeth Iechyd Cymru, rhagwelir mai bach iawn fydd y goblygiadau o ran adnoddau.